


Cyngor Sir Caerfyrddin
Asesiad Digonolrwydd Gofal
Plant Sir Gaerfyrddin
(2022-27)

ADRODDIAD CRYNO



CYNNWYS	tudalennau
PRIF DDATGANIAD	3-4
CYFLWYNIAD / CYD-DESTUN	5-8
POBLOGAETH A DEMOGRAFFEG	8-9
Y GALW AM OFAL PLANT	9-10
Y CYFLENWAD GOFAL PLANT	11-16
RHWYSTRAU A BYLCHAU A NODWYD O RAN GOFAL PLANT	16-20
CYNALIADWYEDD A COVID-19	21-23
CASGLIAD	23-24
ARGYMHELLION	24-27

1 PRIF DDATGANIAD

Mae'n bleser gennyf gyflwyno pumed Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Statudol Cyngor Sir Caerfyrddin (2022-27).

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw creu un dull gweithredu o ansawdd uchel ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, er mwyn sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Rydym yn gwybod bod profiadau plentyndod cynnar yn allweddol wrth lywio ein dyfodol, ac maent yn hollbwysig er mwyn mynd ymlaen i fyw bywyd iach, ffyniannus a llawn. Mae sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael yr un gefnogaeth o ran addysg a gofal plentyndod cynnar, a honno'n gefnogaeth o safon, yn allweddol i hyn.

Mae 2020-22 wedi bod yn gyfnod digynsail oherwydd Pandemig Covid-19. Mae'r cyfnodau clo a'r cyfyngiadau cenedlaethol dilynol ar symudiadau ac ymddygiad pobl wedi creu llawer o heriau i blant a theuluoedd lleol a'r sector gofal plant. Mae wedi profi gwydnwch, llesiant a'n gallu i ymdopi a symud ymlaen o'r hyn sydd wedi bod yn gyfnod cythryblus ac ansicr iawn. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at rôl hollbwysig gofal plant o ran sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau a darparu amgylchedd diogel a meithringar i blant ffynnu. Mae ymroddiad ac ymrwymiad darparwyr gofal plant i barhau i weithredu drwy gydol y pandemig wedi bod yn rhagorol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar farchnad gofal plant Sir Gaerfyrddin, gan ystyried effaith y pandemig, yn unol â gofynion statudol Adrannau 22 a 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006, Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016, canllawiau statudol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016 a chanllawiau atodol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

Ar lefel Awdurdod Lleol, rydym yn parhau i hyrwyddo darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sydd wir yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lleol a lle mae anghenion a budd pennaf y plentyn yn hollbwysig. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod y ddarpariaeth yn hyblyg i'r holl deuluoedd a bod ein darparwyr gofal plant yn cael cymorth i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel.

Fel rhan o'r broses asesu, rydym unwaith eto wedi ymgynghori'n helaeth er mwyn cael barn rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc, cyflogwyr, penaethiaid, darparwyr addysg bellach a phartneriaid gofal plant ynghylch ein darpariaeth gofal plant, a pha ddatblygiadau yr hoffent eu gweld. Roedd y cyfraddau ymateb yn rhagorol a hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i roi adborth gwerthfawr inni. Rydym wedi gwrandao ar yr hyn rydym wedi'i glywed ac wedi ystyried y data a'r ymchwil berthnasol i lywio ein hargymhellion a'n Cynllun Gweithredu.

Ein nod yw defnyddio'r canfyddiadau i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau, drwy dargedu cymorth mewn ardaloedd lle mae angen gofal plant, gan nodi ardaloedd lle nad yw'r angen yn cael ei ddiwallu a lle mae cyfleoedd o ran y farchnad ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Rydym wedi llunio Cynllun Gweithredu ac yn bwriadu defnyddio'r adnoddau presennol mewn modd creadigol ac arloesol a chydweithio â'n partneriaid yn y sector gofal plant a'r gymuned ehangach i sicrhau bod plant yn Sir Gaerfyrddin yn cael manteisio ar ddarpariaeth o ansawdd uchel a'r dechrau gorau posibl mewn bywyd. Bydd ein Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu a'i fonitro yng nghanol y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben a'i fod yn rhoi sylw i anghenion a blaenoriaethau sy'n newid, gan gynnwys materion a heriau yn ymwneud â'r pandemig. Byddwn yn llunio Adroddiad Cynnydd yn manylu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Mae'r asesiad hwn yn ddarn pwysig o ymchwil a bydd yn ein galluogi i barhau i fapio'r cyflenwad gofal plant yn erbyn y galw amdano a pharhau i gyfrannu at wella canlyniadau ar

gyfer plant a'u teuluoedd.

Mae datblygiadau cyffrous o'n blaenau ym maes gofal plant, sef cynnig cyffredinol gofal plant am ddim i bob plentyn dwy oed, ehangu'r Rhaglen Dechrau'n Deg ac ehangu'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant tair a phedair oed a fydd yn cynnwys rhieni sy'n cymryd absenoldeb mabwysiadu a rhieni mewn addysg a hyfforddiant. Bydd y datblygiadau hyn yn cynnig cymorth ychwanegol i deuluoedd ar adeg pan fo angen hynny'n fawr ac yn helpu i gynnal a chynnig cyfleoedd ehangu i'n sector gofal plant lleol.



Gareth Morgans

Gareth Morgans
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

2 CYFLWYNIAD / CYD-DESTUN

- 2.1 Mae Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016 a Chanllawiau Statudol diweddar Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i baratoi Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant llawn bob pum mlynedd (bob tair blynedd ynghynt).

Mae'r Asesiad yn gam angenrheidiol ar gyfer sicrhau darpariaeth gofal plant 'ddigonol' yn Sir Gaerfyrddin. Ei nod yw nodi bylchau mewn gofal plant a gwneud argymhellion a fydd yn diwallu anghenion y rhieni a'r gofalwyr sy'n byw yn y Sir, a sicrhau bod Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cyflawni ei ddyletswydd statudol o ran digonolrwydd gofal plant.

- 2.2 Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi cyhoeddi pedwar Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn hyd yma yn 2008, 2011, 2014 a 2017. Lluniwyd Cynlluniau Gweithredu a oedd â chysylltiad uniongyrchol â'r argymhellion a wnaed ym mhob un o'r pedwar Asesiad hwn. Mae'r rhain wedi'u hadolygu a'u diweddarau bob blwyddyn er mwyn monitro'r cynnydd a wnaed - fel y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn.
- 2.3 Yn ychwanegol at Ganllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016, ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau atodol i awdurdodau lleol ar gyfer proses eu Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022. Roedd hyn yn nodi y byddai angen i awdurdodau lleol Cymru, yn eu hasesiad llawn yn 2022, adrodd ar sut roedd pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y cyflenwad gofal plant, y galw am ofal plant a chynaliadwyedd darparwyr gofal plant presennol, yn ogystal â sut y bydd yr effeithiau hyn yn parhau i gael sylw.
- 2.4 Cynhaliwyd Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 gan Place Group Ltd gyda chymorth y Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin.

Wrth gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn 2022, cynhaliwyd sawl math o ymchwil:


- Dadansoddi data demograffig ac economaidd-gymdeithasol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyllid a Thollau EM, StatsCymru, Llywodraeth Cymru ac adrannau amrywiol Cyngor Sir Gaerfyrddin, i gael syniad o natur y ffactorau sy'n effeithio ar y galw am ofal plant yn Sir Gaerfyrddin, a'r gallu i dalu amdano
- Ymgynghori â 821 o rieni/gofalwyr lleol drwy gyfrwng holiadur a gynhaliwyd ym mis Hydref 2021 drwy Lywodraeth Cymru
- Ymgynghori â (a) darparwyr gofal dydd llawn; (b) darparwyr sesiynol; (c) gwarchodwyr plant cofrestredig a; (ch) darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol Sir Gaerfyrddin ym mis Tachwedd 2021, i ategu dadansoddiad o ddata'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a gwblhawyd ar-lein gan 88% o ddarparwyr gofal plant cofrestredig lleol ar gyfer AGC ym mis Mehefin 2021
- Ymgynghori â phlant a phobl ifanc mewn partneriaeth â chydweithwyr sy'n cynnal Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Sir Gaerfyrddin 2022
- Ymgynghori â chyflogwyr lleol
- Ymgynghori â phartneriaid, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol perthnasol lleol
- Dadansoddi data atodol sy'n deillio o amrywiaeth o ffynonellau ychwanegol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Dadansoddi data'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

2.5 Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn wedi rhoi cyfle i benderfynu i ba raddau y mae effeithiau COVID-19 wedi bod yn ffactor ym mhob un o 112 ACEHI¹ Sir Gaerfyrddin - yn enwedig o safbwynt y gostyngiad cydnabyddedig yn y galw am ofal plant ffurfiol, a hynny'n arbennig ar gyfer oriau y mae rhieni yn talu amdanynt yn 2020 a 2021. Fel yn 2017, at ddibenion yr asesiad hwn, mae chwe Ardal Gymunedol Sir Gaerfyrddin wedi'u nodi ac rydym yn galw'r rhain yn Ardaloedd Cymunedol. Isod ceir dadansoddiad o'r wardiau a'r ACEHlau cyffredinol ym mhob un o'r chwe Ardal Gymunedol.

Ardal Gymunedol 1 (UOA0001 ar y map drosodd)	Ardal Gymunedol 2 (UOA0002 ar y map drosodd)
Gogledd Tref Caerfyrddin	Abergwili
De Tref Caerfyrddin	Gorllewin Tref Caerfyrddin
Cenarth	Cil-y-cwm
Talacharn	Cynwyl Elfed
Llanboidy	Cynwyl Gaeo
Llangeler	Llandeilo
Llangynnwr	Llanymddyfri
Llansteffan	Llanegwad
Sanclêr	Llanfihangel-ar-arth
Tre-lech	Llanfihangel Aberbythych
Hendy-gwyn ar Daf	Llangadog
	Llanybydder
	Maenordeilo a Salem
Ardal Gymunedol 3 (UOA0003 ar y map drosodd)	Ardal Gymunedol 4 (UOA0004 ar y map drosodd)
Rhydaman	Porth Tywyn
Y Betws	Y Glyn
Y Garnant	Gors-las
Glanaman	Cydweli
Yr Hendy	Llanddarog
Llandybïe	Llangyndeyrn
Pontaman	Pen-bre
Cwarter Bach	Pontyberem
Saron	Llanismel
Tŷ-croes	Trimsaran
	Porth Tywyn
Ardal Gymunedol 5 (UOA0005 ar y map drosodd)	Ardal Gymunedol 6 (UOA0006 ar y map drosodd)
Y Bynea	Bigyn
Dafen	Elli
Felin-foel	Glan-y-môr
Llangennech	Hengoed
Llan-non	Lliedi
Llwynhendy	Tyisha
Pen-y-groes	
Dyffryn y Swistir	
Y Bynea	

¹ Mae ACEHlau yn ardaloedd bychain sydd wedi'u llunio i fod â maint poblogaeth tebyg. Maent yn cynnwys cyfartaledd o tua 1,500 o drigolion neu 650 o aelwydydd. Fe'u lluniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer adrodd ar ystadegau ardaloedd bychain.

Ffigur 1 – Chwe Ardal Gymunedol - Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch



2.6 Yn y bôn, mae Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 hefyd wedi bod yn gyfle i wneud y canlynol:

- Cael barn rhieni, gofawyr a gwarcheidwaid lleol am y blynyddoedd cynnar a gofal plant, yn enwedig mewn perthynas â'u galw yn y dyfodol ac anghenion penodedig
- Helpu i sicrhau bod teuluoedd lleol yn gallu manteisio ar ofal plant yn lleol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i ddatblygu eu bywyd gwaith a'u cyflogadwyedd
- Penderfynu i ba raddau yr effeithiodd pandemig COVID-19 ar y canlynol: (a) y cyflenwad o ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant; (b) y galw am ofal plant ffurfiol a; (c) cynaliadwyedd darparwyr presennol y blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Nodi a gweithredu mesurau i gryfhau, gwella a chynyddu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Cael gwybod i ba raddau y mae nanis a darparwyr gofal plant eraill yn y cartref yn cael eu cyflogi mewn gwirionedd yn ardal Sir Gaerfyrddin.

2.7 Yn ogystal, fel cyd-destun, gosododd Deddf Gofal Plant 2006 ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau gofal plant digonol yn eu hardal i alluogi rhieni i gael gwaith neu aros yn y gwaith neu i ymgymryd ag addysg a hyfforddiant er mwyn cael gwaith. Wrth benderfynu a yw'r ddarpariaeth gofal plant yn ddigonol i fodloni'r gofynion hyn, nodwyd bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried darparu gofal plant sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg. Wrth reswm, roedd hyn yn golygu bod angen i Awdurdodau Lleol chwarae rôl ganolog yn y gwaith o ddatblygu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn eu hardaloedd, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol a:

Dylai Awdurdodau Lleol nodi a chynllunio mesurau i gryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd yn yr ardal er mwyn sicrhau llwybr di-dor at addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rhieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yng nghartref y teulu.

Ym mis Medi 2021, dangosodd ffigurau a gyhoeddwyd gan StatsCymru fod gan ardal Sir Gaerfyrddin un o'r canrannau uchaf o ran poblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg (54.6% o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 29.5%). Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn ymroddedig i gefnogi'r uchelgais o wella ymhellach allu ei boblogaeth i fod â hyfedredd yn y Gymraeg. Yn unol â hynny, mae'n parhau i weithio tuag at sicrhau bod digon o ystyriaeth ar bob lefel lle gwneir penderfyniadau am gyllid darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

2.8 Yn olaf, fel cyd-destun, mae Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2021 yn amlinellu'r canlynol o safbwynt plentyndod yn y sir:

- Effeithiwyd ar blant am nad oeddent yn gallu gweld eu ffrindiau na'u teuluoedd estynedig yn ystod cyfnodau clo COVID-19.
- Bu cynnydd mewn plant y nodwyd eu bod yn "blant mewn angen" gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n debygol bod hyn yn cael ei waethygu gan bwysau a roddwyd ar deuluoedd gan bandemig COVID-19.
- Mae bron i draean o blant yn y sir yn byw mewn tlodi.
- Mae rhieni a gofalwyr wedi nodi bod cost gofal plant yn gallu bod yn ormodol.

Mae'r Asesiad Llesiant hwnnw'n cynnwys adran ar ddarpariaeth gofal plant ac yn ystyried sut mae thema gofal plant: *"wedi dod i'r amlwg gan fod anghenion rhai rhieni wedi newid oherwydd effaith y pandemig. Gyda mwy o bobl bellach yn gweithio gartref, gallai hyn newid y galw am eu lleoliad gofal plant a'r lleoliad a ddymunir ar ei gyfer"*.

3 POBLOGAETH A DEMOGRAFFEG

3.1 Sir Gaerfyrddin yw'r drydedd sir fwyaf yng Nghymru o safbwynt daearyddol, ac mae'n cwmpasu rhyw 2,370 cilometr sgwâr.

Mae'r 'teneurwydd' hwn yn y boblogaeth yn fwy amlwg yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin nag ydyw yn ne a dwyrain y sir.

Mae cyfran fawr o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn dal i fod yn byw (fel yn 2017) yn y tair prif dref, sef Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman. Yn wir, ceir nifer gymharol uchel o ddatblygiadau tai newydd yn y tri lleoliad hyn.

3.2 Yn y bôn, mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin 2018-2033 yn nodi yr amcangyfrifir y bydd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn tyfu tua 2.4% dros gyfnod yr amcanestyniad, sef 2014-2039, sy'n gynnydd o 4,004 o bobl.

Mae'r tair ardal lle rhagwelir y bydd y nifer uchaf o dai newydd yn cael eu hadeiladu hyd at 2026 yn ategu hynny, h.y. yr echel ddaearyddol drionglog ganlynol:

- Ardal Llanelli - lle rhagwelir 1,970 o dai newydd hyd at 2026
- Ardal Caerfyrddin – lle rhagwelir 1,256 o dai newydd hyd at 2026
- Ardal Rhydaman – lle rhagwelir 562 o dai newydd hyd at 2026

3.3 Yr arolwg cynhwysfawr diwethaf o'r Gymraeg a gyhoeddwyd oedd Cyfrifiad poblogaeth 2011. Fodd bynnag, disgwylir i'r ffigurau ar gyfer Cyfrifiad 2021 gael eu cyhoeddi yn 2022.

Yn y bôn, yn 2011, roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin (43.9%) ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Dim ond Gwynedd (65%), Ynys Môn (57%) a Cheredigion (47%) oedd â nifer uwch o siaradwyr Cymraeg na Sir Gaerfyrddin.

4 Y GALW AM OFAL PLANT

4.1 Dangosodd yr arolwg rhieni a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021 mai'r tri math mwyaf cyffredin o ofal plant ffurfiol a oedd yn cael eu defnyddio gan y rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn ystod y tymor oedd (yn nhrefn amlder):


1. Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brechwast
2. Meithrinfa Ddydd Breifat
3. Clwb ar ôl Ysgol

Y ddau fath mwyaf cyffredin o ofal plant ffurfiol a oedd yn cael eu defnyddio gan rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn ystod gwyliau'r ysgol oedd (yn nhrefn amlder):

1. Meithrinfa Ddydd Breifat
2. Clwb Gwyliau neu Gynllun Chwarae

4.2 Gwahoddwyd yr holl rhieni/gofalwyr a ymatebodd i nodi a oeddent yn gallu siarad, darllen a/neu ysgrifennu yn Gymraeg.


Ffigur 2 - Niferoedd o ran hyfedredd yn y Gymraeg



Dywedodd 35% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn manteisio ar ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, a gan amlaf roedd y rhieni/gofalwyr hyn yn byw yn ardaloedd Rhydaman a Gors-las. O'r 65% o ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn manteisio ar ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, (dim ond) 4% a ddywedodd fod hyn yn rhywbeth yr hoffent ei wneud, yn ddelfrydol.

4.3 Ymateb allweddol gan rhieni/gofalwyr oedd yr un i'r cwestiwn: Ydych chi'n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf?

Ffigur 3 - Ystyried a fydd mwy neu lai o ofal plant yn cael ei ddefnyddio yn ystod y ddwy flynedd nesaf



Gan amlaf roedd y rhieni/gofalwyr hynny a ddywedodd 'Mwy' yn byw yn ACEHI Gors-las (yn ardal Dinefwr), ACEHI Sanclêr (yn ardal Caerfyrddin) ac ACEHI y Bynea (yn ardal Llanelli).

4.4 Yn hollbwysig, gwelwyd mai'r tri math o ofal plant ffurfiol y dywedodd y rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn bwriadu defnyddio 'mwy ohono' yn ystod y tymor oedd:

1. Clwb Cyn Ysgol/Clwb Brecwast – 62% o'r rhieni perthnasol
2. Clwb ar ôl Ysgol – 61% o'r rhieni perthnasol
3. Meithrinfa Ddydd - 37% o'r rhieni perthnasol

Nododd 27% Gylch Meithrin. Hefyd nododd 33% Glwb Chwarae yn ystod y Gwyliau.

4.5 Gofynnwyd i bob rhiant/gofalwr a ymatebodd nodi am sawl awr yr wythnos, ar gyfartaledd, yr oeddent yn defnyddio gofal plant yn ystod wythnos arferol. O'r rhieni hynny a ymatebodd i'r cwestiwn:

Yn ystod y tymor:

Y nifer o oriau a nodwyd amlaf oedd 30 awr yr wythnos, ac yna 20 awr yr wythnos.

Yn ystod gwyliau'r ysgol:

Y nifer o oriau a nodwyd amlaf oedd 30 awr yr wythnos hefyd, ac yna 40 awr yr wythnos.

4.6 Fel rhan o'r ymchwil ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022, gwahoddwyd pob cyflogwr a leolwyd yn Sir Gaerfyrddin i nodi a oeddent wedi gweld newid yn y ffordd y mae eu gweithwyr yn manteisio ar drefniadau gweithio hyblyg yn ystod pandemig COVID-19. Dywedodd dwy ran o dair eu bod wedi gweld newid – ac roedd y newidiadau yr oeddent wedi'u gweld yn cynnwys:

- Galw cynyddol am fwy o hyblygrwydd o ran amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol
- Cynnydd cyffredinol mewn ceisiadau am weithio hyblyg
- Cynnydd cyffredinol mewn ceisiadau i weithio gartref

5 Y CYFLENWAD GOFAL PLANT

- 5.1 Mae Tabl A yn dangos cyflenwad y pedwar prif fath o ofal plant cofrestredig fel y'u cyflwynwyd yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017.

Tabl A - Darparwyr Cofrestredig yn ôl math a lleoedd 2016-2017

Math y lleoliad	Darparwyr cofrestredig	Lleoedd cofrestredig
Gwarchodwyr plant	113 (55)	735 (295)
Gofal Dydd Llawn	35 (17)	1,314 (630)
Gofal sesiynol	52 (51)	955 (935)
Gofal y tu allan i'r ysgol	42 (24)	1,161 (653)
Cyfanswm	242	4,165

- 5.2 Mewn cymhariaeth, mae Tabl B yn dangos cyflenwad sylfaenol lleoedd gofal plant cofrestredig yn y sir ym mis Mehefin 2021.

Tabl B - Darparwyr Cofrestredig yn ôl math a lleoedd Mehefin 2021

Math y lleoliad	Darparwyr cofrestredig	Lleoedd cofrestredig
Gwarchodwyr plant	103 (37)	787 (269)
Gofal Dydd Llawn	38 (10)	1,462 (405)
Gofal sesiynol	64 (58)	1,186 (1,091)
Gofal y tu allan i'r ysgol	44 (25)	1,337 (824)
Cyfanswm	249 (130)	4,772 (2589)

(Mae'r ffigurau uchod mewn **coch** ar y ddau dabl yn dynodi darparwyr gofal plant a lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg presennol yn ôl math y lleoliad).

Yn y bôn, yn 2021, roedd gan Sir Gaerfyrddin 15.5 o leoedd gofal plant cofrestredig i bob 100 o blant 0-14 oed - sef cynnydd ers 2017 pan oedd 14 o leoedd i bob 100. Yn wir, mae nifer wirioneddol y lleoedd wedi cynyddu ar gyfer pob un o'r pedwar math o ofal plant cofrestredig.

- 5.3 O ran math penodol o ddarpariaeth gofal plant:

GWARCHODWYR PLANT

Rhwng 2017 a Mehefin 2021, cafwyd gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig o 113 i 103. Fodd bynnag, cynyddodd nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig o 735 i 787 gan wneud iawn am hynny. Mae hyn yn gynydd o 6.7% ers Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017.

Mae gwarchodwyr plant yn darparu 17% o'r holl leoedd gofal plant cofrestredig yn y sir.

Mae 35 o warchodwyr plant sydd â chofnodion Dewis ac mae naw ohonynt wedi nodi eu bod yn cynnig gwasanaeth ar y penwythnos neu eu bod yn gallu gwneud hynny. Mae 1 gwarchodwr plant hefyd wedi nodi y gall ddarparu gofal dros nos.

Canfu arolwg Cyngor Sir Caerfyrddin i ddarparwyr gofal plant yn hydref 2021 mai'r gyfradd ddyddiol gyfartalog a godir gan warchodwyr plant yn y sir oedd £37.50.

GOFAL DYDD LLAWN

Rhwng 2017 a mis Mehefin 2021 roedd nifer y meithrinfeydd dydd/darparwyr gofal dydd llawn yn y sir wedi cynyddu o 35 i 38. Yn yr un modd, roedd cyfanswm y lleoedd gofal plant cofrestredig wedi cynyddu 148 i 1,462 o leoedd.

Mae meithrinfeydd dydd yn darparu 30.5% o'r holl ddarpariaeth gofal plant cofrestredig yn y Sir ac mae'r ddarpariaeth ar ei huchaf yn ardaloedd mwy trefol Caerfyrddin a Llanelli.

Canfu arolwg Cyngor Sir Caerfyrddin i ddarparwyr gofal plant yn hydref 2021 mai'r gyfradd ddyddiol gyfartalog a godir gan ddarparwyr gofal dydd llawn yn y sir oedd £45.00.

GOFAL SESIYNOL

Rhwng 2017 a mis Mehefin 2021 roedd nifer y lleoliadau gofal sesiynol wedi cynyddu o 52 i 64 o leoliadau cofrestredig. Yn yr un modd, roedd cyfanswm y lleoedd gofal plant cofrestredig wedi cynyddu o 955 i 1186 o leoliadau cofrestredig. Mae lleoliadau gofal sesiynol yn Gylchoedd Meithrin neu Gylchoedd Chwarae a gellir eu cofrestru fel gofal sesiynol neu ofal dydd llawn gydag AGC.

Roedd ymatebion Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Mehefin 2021 yn dangos mai'r gyfradd gyfartalog a godir fesul sesiwn oedd £10.68.

CRÈCHE

Ym mis Mehefin 2021 nid oedd unrhyw gyfleusterau crèche cofrestredig yn Sir Gaerfyrddin.

GOFAL PLANT Y TU ALLAN I'R YSGOL

Ym mis Hydref 2016, roedd 42 o leoliadau gofal cofrestredig y tu allan i'r ysgol yn cynnig 1,161 o leoedd gofal plant cofrestredig ar draws y sir. Ym mis Mehefin 2021, roedd nifer y lleoliadau cofrestredig wedi cynyddu i 44 ac roedd 174 yn fwy o leoedd cofrestredig.

Gall lleoliadau gofal plant cofrestredig y tu allan i'r ysgol hefyd gynnig tair elfen o ofal: gofal cyn ysgol, gofal ar ôl ysgol a gofal yn ystod y gwyliau. Mae rhai o'r meithrinfeydd dydd hefyd yn darparu cyfuniad o gyfleusterau y tu allan i'r ysgol.

Yn 2021 mae lleoliadau gofal y tu allan i'r ysgol yn darparu 28% o'r holl leoedd gofal plant cofrestredig yn y sir.

Cadarnhaodd arolwg Cyngor Sir Caerfyrddin i ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol, a gynhaliwyd yn hydref 2021, y canlynol hefyd:

- Y gyfradd sesiynol gyfartalog ar gyfer lleoedd mewn clwb y tu allan i'r ysgol oedd £7.10
- Y gyfradd sesiynol gyfartalog ar gyfer lleoedd mewn clwb brecwast oedd £2.70
- Y gyfradd sesiynol gyfartalog ar gyfer lleoedd mewn clwb gwyliau oedd £20.10

DARPARIAETH CHWARAE MYNEDIAD AGORED (ANGHOFRESTREDIG)

Gall darpariaeth chwarae mynediad agored fod yn ddarpariaeth barhaol neu dymor byr, wedi'i lleoli mewn amrywiaeth o leoliadau â neu heb safleoedd, gan gynnwys canolfannau chwarae, meysydd chwarae antur, cynlluniau chwarae a pharciau. Er bod y term Mynediad Agored yn berthnasol i ddarpariaeth gofrestredig ar gyfer plant o dan wyth oed, mae darpariaeth o'r fath fel arfer yn darparu ar gyfer ystod oedran eang o blant, gan gynnwys y rhai dros saith oed.

Mae Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored yn dal i weithredu ym mhob un o'r tair Canolfan Blant Integredig:

- 1/ Chwarae Mynediad Agored Llwynhendy i blant 7-11 oed
- 2/ Sesiwn Chwarae Mynediad Agored y Morfa i blant 4-6 oed (rhaid iddynt fod yng nghwmni rhiant) a phlant 7-11 oed
- 3/ Chwarae Mynediad Agored Felin-foel i blant 4-6 oed (rhaid iddynt fod yng nghwmni rhiant) a phlant 7-11 oed.

NANI

Ym mis Mehefin 2021, roedd tair nani wedi'u cofrestru ar gynllun cymeradwyo gwirfoddol AGC.

DARPARIAETH CLWB BRECWAST

Ym mis Medi 2021 roedd un ysgol feithrin a 95 o ysgolion babanod a chynradd ledled Sir Gaerfyrddin. Roedd pob un o'r rhain yn cynnal clwb brecwast am ddim. Roedd gan y sir hefyd ddau glwb brecwast/gofal sy'n codi tâl: Ysgol Teilo Sant ac Ysgol y Dderwen.

Mae oriau agor y clybiau brecwast am ddim a'r clybiau brecwast sy'n codi tâl yn amrywio ac mae'r clybiau sy'n codi tâl yn agor yn gynharach.

ADDYSG FEITHRIN AM DDIM, Y CYNNIG GOFAL PLANT A DARPARIAETH DECHRAU'N DEG

5.4 Mae tri phrif fath o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar a ariennir yng Nghymru.

- Mae addysg y blynyddoedd cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed am 10 awr yr wythnos (yn ystod y tymor) mewn lleoliad gofal plant cofrestredig cymeradwy. Gellir cael mynediad i'r ddarpariaeth hon fel rhan o'r Cynnig Gofal Plant. (Gellir cael mynediad hefyd i addysg ran-amser i blant 3 oed am 10 neu 12.5 awr mewn ysgolion 3-11 oed).
- Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i blant 3 a 4 oed, am 48 wythnos y flwyddyn mewn lleoliad gofal plant sydd wedi'i gofrestru gydag AGC sydd wedi cytuno i gymryd rhan yn y cynllun. Gall rhieni ddewis eu darparwr gofal plant eu hunain sy'n diwallu anghenion eu plentyn.
- Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd â phlant o dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys gofal plant ran-amser i blant 2 i 3 oed (12.5 awr yr wythnos, 42 wythnos y flwyddyn).

Addysg Ran-amser y Blynyddoedd Cynnar i blant 3 oed a Darpariaeth y Cynnig Gofal Plant

Os na fydd plant yn gallu cael mynediad at addysg ran-amser mewn ysgolion 4-11 oed, gall lleoliadau cymeradwy nas cynhelir cynnig mynediad i blant at addysg gynnar sy'n dilyn y Cwricwlwm i Gymru.

Er bod modd i bawb fanteisio ar yr elfen addysg gynnar o'r Cynnig Gofal Plant, dim ond rhieni sy'n gweithio sy'n gymwys i gael yr elfen gofal plant. Ar ddechrau 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd yn ehangu'r Cynnig o fis Medi 2022 i sicrhau bod modd i rieni sy'n ymgymryd ag addysg a hyfforddiant elwa ar yr oriau ychwanegol o ofal plant a ariennir y mae'n eu darparu hefyd.

I ddechrau bydd y gwaith o ehangu'r Cynnig yn canolbwyntio ar gynnwys rhieni sydd wedi cofrestru ar gyrsiau addysg uwch ac addysg bellach. Ar ôl i'r newid hwnnw gael ei weithredu, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys carfannau ychwanegol o ddysgwyr yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys pobl sy'n ymgymryd â dysgu oedolion, dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gymuned yn ogystal â phobl sy'n ymgymryd â dysgu tymor byr, gan gynnwys cyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. At hynny, bydd y Cynnig Gofal Plant yn cael ei ehangu o 1 Ebrill 2022 ymlaen i sicrhau bod modd i rieni cymwys sy'n cymryd absenoldeb mabwysiadu fanteisio ar y Cynnig ar gyfer y plentyn sy'n cael ei fabwysiadu, ar yr amod bod hynny'n unol â'i Gynllun Cymorth Mabwysiadu.

- 5.5 Yn hydref 2021, dywedodd 80% o gynrychiolwyr darparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr sesiynol, eu bod yn cynnig lleoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i blant 3-4 oed, ar gyfartaledd o 8 lle fesul lleoliad. (Roedd hyn yn cymharu ag 84% o ymatebwyr a nododd yr un peth fel rhan o ymchwil y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ym mis Mehefin 2021). O blith y lleoliadau hyn, dywedodd 29% fod ganddynt leoedd gwag a dywedodd 15% eu bod wedi gweld newidiadau o ran nifer y rhieni/gofalwyr sy'n manteisio ar leoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ers dechrau'r pandemig, gan ddweud dro ar ôl tro (mewn geiriau i'r perwyl) *"mae gennym leoedd ar gael, ond bu llai o alw"*.

Dywedodd 87% o warchodwyr plant cofrestredig eu bod yn cynnig lleoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i blant 3-4 oed, ar gyfartaledd o 2 le fesul gwarchodwr plant. Dywedodd 54% fod ganddynt leoedd gwag a dywedodd 16% eu bod wedi gweld newidiadau o ran nifer y rhieni/gofalwyr sy'n manteisio ar leoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ers dechrau'r pandemig, gan ddweud dro ar ôl tro (unwaith eto, mewn geiriau i'r perwyl) *"mae gennym leoedd ar gael, ond bu llai o alw"*.

Darpariaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg

- 5.6 O fis Medi 2022, bydd nifer yr ardaloedd targed Dechrau'n Deg ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys Sir Gaerfyrddin, yn cael ei ehangu sy'n golygu y bydd pob plentyn o dan bedair oed sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn gallu manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg, gan gynnwys gofal plant i blant dwy a thair oed. Bydd y tîm Dechrau'n Deg lleol yn rhoi gwybod i deuluoedd sy'n gymwys erbyn yr haf. Ar ôl i'r cynllun Dechrau'n Deg gael ei roi ar waith yn llawn, bydd pob teulu yng Nghymru sydd â phlant rhwng dwy a thair oed yn gymwys i gael 12.5 awr o ofal plant o ansawdd uchel a ariennir am 39 wythnos y flwyddyn. Cyhoeddir cynlluniau ar gyfer ehangu gofal plant ymhellach yn ystod yr hydref. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, bydd darparwyr gofal plant presennol Dechrau'n Deg yn Sir Gaerfyrddin yn cael cymorth i estyn eu darpariaeth – yn ogystal â pharhau i annog darparwyr newydd i gynnig y rhaglen, gan gynnwys y darparwyr hynny sy'n arbenigo mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Dangosodd ymatebion Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Mehefin 2021 fod 17% (33) o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd (191) yn derbyn cyllid i ddarparu lleoedd gofal plant y rhaglen Dechrau'n Deg.

- 5.7 Mae Tabl C isod yn dangos nifer y lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg sydd ar gael yn amlwg ym mis Mawrth 2022 ym mhob un o'r ACEHlau perthnasol. Mae hefyd yn dangos y trefniadau comisiynu o ran uchafswm nifer y lleoedd Cymraeg a Saesneg ym mhob lleoliad a gomisiynir. Rydym wedi penderfynu dangos y ffigurau hyn ar gyfer mis Mawrth 2022 gan fod hyn yn ymwneud â'r rhaglen Dechrau'n Deg ei hun ac yn sgil cynnal ymarfer comisiynu ym mis Medi 2021 gan sicrhau lleoedd hyd at 2028.

Tabl C - Nifer y lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg sydd ar gael yn amlwg ym mis Mawrth 2022

Enw'r lleoliad gan gynnwys y côd post	ACEHI			Math o ddarparwr					Uchafswm Nifer y lleoedd Dechrau'n Deg	Cadarnhad ei fod wedi'i gofrestru ag AGC
	Enw	Rhif	Côd Post	Awdurdod Lleol	Gwirfoddol	Preifat	Saesneg	Cymraeg		
Canolfan Deulu Argel	De Tref Caerfyrddin 2	W01000642	SA31 3NQ	√			8		√	
Andi Pandis	Pontaman 1	W01000714	SA18 2DB			√	30		√	
Little Wizards	Gogledd Tref Caerfyrddin	W01000637	SA31 1TE	√			16		√	
Ffrindiau Bach	Trimsaran 1	W01000729	SA17 4BE	√				20yb 20yp	√	
Trysor Bach	Y Betws	W01000627	SA18 2HE	√				14yb 14yp	√	
Sêr Ni	Llwynhendy 3	W01000708	SA14 9DP	√			20 yb	20yp	√	
Tedi Bach	Glanymôr 2	W01000660	SA15 2NG		√		20 yb 20 yp		√	
Canolfan Deulu Sant Paul	Tyisha 2	W01000733	SA15 1DN		√		16		√	
Cylch Meithrin Felin-foel	Felin-foel	W01000655	SA14 8BE		√			24	√	
Jellitotz	Glanymôr 3	W01001923	SA15 2AP		√		20 yn 20yp		√	
Cylch Meithrin Carwe	Llangyndeyrn 1	W01000695	SA17 4HE		√			8	√	
Cylch Ysgol y Bedol	Y Garnant	W01000656	SA18 2GB		√			28	√	
Cylch Meithrin Parc-yrhun	Rhydaman 1	W01000625	SA18 3HB		√			8	√	
Little Towy Toddlers	De Tref Caerfyrddin	W01000641	SA31 1NB	√			10 yb 10yp		√	
Sêr Ni Bynea	Y Bynea 1	W01000635	SA14 9LT	√			16yb 16yp		√	
Myrtle House	Bigyn 2	W01000629	SA15 1LH			√	20		√	
Childsplay	Tyisha 3	W01000734	SA15 1AU			√	20		√	

Enw'r lleoliad gan gynnwys y côd post	ACEHI			Math o ddarparwr					Uchafswm Nifer y lleoedd Dechrau'n Deg	Cadarnh ad ei fod wedi'i gofrestru ag AGC
	Enw	Rhif	Côd Post	Awdur dod Lleol	Gwirfoddol	Preifat	Saesneg	Cymraeg		
Once Upon a Time	Tyisha 1	W01000732	SA15 2RH			√	10		√	
High Flyers	Dafen 2	W01000652	SA14 8LL			√	10yb 10yp		√	
Little Lighthouse	Pen-bre 1	W01000710	SA16 0AU	√			10yb 10yp		√	
Serendipity Dechrau'n Deg	Pen-bre 2	W01000711	SA16 0TP			√	10		√	
Ffrindiau'r Harbwr	Pen-bre 1	W06000010	SA16 0AU	√				19yb 19yp	√	
Brambly Hill	Dafen 2	W01000652	SA14 8QF			√	0		√	
Camau Tirion	Y Bynea 2	W01000636	SA14 9ET			√		0*	√	
Eco Tywi	De Tref Caerfyrddin 1	W02000149	SA311LR		√			0*	√	
Pobl Bach	Llangynnwr 2	W01000694	SA31 2BL	√				0*	√	
							322	194		

* Mae lleoedd Dechrau'n Deg ychwanegol ar gael os oes angen

Mae'r Tabl yn dangos mai 516 oedd uchafswm nifer y lleoedd a oedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar ddechrau gwanwyn 2022, o gymharu â 412 adeg Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017.

6 RHWYSTRAU A BYLCHAU A NODWYD O RAN GOFAL PLANT

6.1 Roedd yr arolwg rhieni/gofalwyr a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021 wedi gwahodd ei gynulleidfa darged i nodi a oedd problemau yn ymwneud â gofal plant wedi effeithio arnyn nhw neu eu partner yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Dywedodd 49% fod problem yn ymwneud â gofal plant wedi: achosi problemau yn y gwaith
- Dywedodd 19.5% fod problem yn ymwneud â gofal plant wedi: eu hatal rhag gallu parhau â'u gwaith
- Dywedodd 19% fod problem yn ymwneud â gofal plant wedi: eu hatal rhag gweithio/cael swydd
- Dywedodd 13% fod problem yn ymwneud â gofal plant wedi: eu hatal rhag hyfforddi

6.2 Roedd yr arolwg rhieni/gofalwyr a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021 hefyd wedi gwahodd ei gynulleidfa darged i roi adborth am unrhyw rwystrau yr oeddent wedi dod ar eu traws o ran manteisio ar ofal plant o'u dewis. Mae adborth cyfunol y rhieni/gofalwyr wedi'i grynhoi yn Nhabl D isod.

Tabl D - amllder y rhesymau a nodwyd ynghylch pam nad oedd rhiant/gofalwr yn manteisio ar gymorth/derbyn cymorth o ran gofal plant yn hydref 2021

Rhesymau	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
Mae fy mhlentyn ar restr aros am ddarparwr ac rydym yn aros i le ddod ar gael	2%
Nid oes gofal plant sydd o ansawdd digonol	1.5%
Nid oes darpariaeth Gymraeg addas	1%
Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, nad yw'n Gymraeg nac yn Saesneg	0.5%
Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion	7.5%
Mae gofal plant yn rhy ddrud	19%
Mae amseroedd gofal plant yn anaddas	5%
Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn	5.5%
Mae cludiant yn broblem	2%
Nid oes gofal plant lle mae ei angen arnaf	5.5%
Nid oes gofal plant sy'n gallu darparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn	1.5%
Dim ond ar sail ad hoc yr wyf yn defnyddio gofal plant ac mae'n amhosibl cynllunio	4%

Mae Tabl D yn dangos, pan amlygwyd rhwystr, mai dim ond tua 1:5 o rieni neu ofalwyr a nodwyd hynny, ar y mwyaf.

Y tri rhwystr mwyaf cyffredin a nodwyd gan rieni sy'n gweithio oedd (yn nhrefn amllder):

1. Mae gofal plant yn rhy ddrud (nodwyd gan 18.5% o'r rhieni perthnasol)
2. Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion (7.5%)
3. Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn (5.5%)

Y tri rhwystr mwyaf cyffredin a nodwyd gan rieni a oedd yn dymuno cael gwaith neu hyfforddiant oedd:

1. Mae gofal plant yn rhy ddrud (nodwyd gan 26% o'r rhieni perthnasol)
2. Nid oes gofal plant lle mae ei angen arnaf (20%)
3. Mae amseroedd gofal plant yn anaddas (11%)

6.3 Ar ddiwedd 2021 a dechrau 2022, trefnodd a hwylusodd Cyngor Sir Caerfyrddin gyfres o sesiynau grŵp e-ffocws gyda rhieni a gofalwyr a oedd yn byw yn yr ardal. Roedd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar y thema hygyrchedd gofal plant a blaenoriaethau rhieni.

O ran themâu **rhwystrau i ofal plant**, cafwyd adborth gwerthfawr gan y gofalwyr a ddaeth i'r sesiynau grŵp e-ffocws a oedd yn rhoi sylw i anghenion eu plant ADY, gan gynnwys:

- Y ffaith bod diffyg darpariaeth gofal plant wedi effeithio ar eu penderfyniadau o ran gwaith
- Bod yr opsiynau gofal plant y tu allan i'r ysgol wedi bod yn achosi'r heriau mwyaf, ar ôl pandemig COVID-19
- Hoffent gael mwy o ymwybyddiaeth o "ystyr" Gofal Plant Di-dreth a sut y gallent fod yn gymwys.

O ran themâu **rhwystrau i ofal plant**, cafwyd adborth gwerthfawr unwaith eto gan rieni a gofalwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, gan gynnwys:

- Y dylai mater tlodi gwledig barhau i gael ei ystyried gan y rhai sy'n ymwneud â chynllunio gofal plant
- Pa mor bwysig oedd hi fod y rhaglen Dechrau'n Deg yn rhoi cyfle iddynt gwrrdd â rhieni a theuluoedd eraill ac elwa ar rwydweithio, yn enwedig er mwyn lliniaru 'rhwystr gwybodaeth' posibl.

6.4 Mae'r tablau isod yn crynhoi **nifer y lleoedd a darparwyr gofal plant cofrestredig** sydd ar gael ym mhob Ardal Gymunedol (1-6), ar gyfer y math(au) o ofal plant cofrestredig eang.

Tabl E - Nifer y darparwyr a'r lleoedd yn Ardal Gymunedol 1

	Gwarchodwyr plant	Gofal Dydd Llawn	Gofal Sesiynol	Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol
Cyfanswm y Darparwyr	22	10	15	12
Cyfanswm y Lleoedd Cofrestredig	207	296	244	456

Tabl F - Nifer y darparwyr a'r lleoedd yn Ardal Gymunedol 2

	Gwarchodwyr plant	Gofal Dydd Llawn	Gofal Sesiynol	Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol
Cyfanswm y Darparwyr	17	6	17	7
Cyfanswm y Lleoedd Cofrestredig	126	185	252	296

Tabl G - Nifer y darparwyr a'r lleoedd yn Ardal Gymunedol 3

	Gwarchodwyr plant	Gofal Dydd Llawn	Gofal Sesiynol	Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol
Cyfanswm y Darparwyr	13	2	5	9
Cyfanswm y Lleoedd Cofrestredig	98	134	149	241

Tabl H - Nifer y darparwyr a'r lleoedd yn Ardal Gymunedol 4

	Gwarchodwyr plant	Gofal Dydd Llawn	Gofal Sesiynol	Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol
Cyfanswm y Darparwyr	19	10	12	4
Cyfanswm y Lleoedd	151	313	246	64

Tabl I - Nifer y darparwyr a'r lleoedd yn Ardal Gymunedol 5

	Gwarchodwyr plant	Gofal Dydd Llawn	Gofal Sesiynol	Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol
Cyfanswm y Darparwyr	21	3	9	9
Cyfanswm y Lleoedd Cofrestredig	119	151	171	214

Tabl J - Nifer y darparwyr a'r lleoedd yn Ardal Gymunedol 6

	Gwarchodwyr plant	Gofal Dydd Llawn	Gofal Sesiynol	Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol
Cyfanswm y Darparwyr	11	7	6	3
Cyfanswm y Lleoedd Cofrestredig	86	383	124	66

Mae'r tablau uchod yn dangos:

Gwarchodwyr plant

Yn Ardal Gymunedol 1 y mae'r nifer uchaf o leoedd gwarchodwyr plant.
Yn Ardal Gymunedol 6 y mae'r nifer isaf o leoedd gwarchodwyr plant.

Gofal Dydd Llawn

Yn Ardal Gymunedol 6 y mae'r nifer uchaf o leoedd gofal dydd llawn (Mehefin 2021).
Yn ardal gymunedol 3 y mae'r nifer isaf o leoedd darparwyr gofal dydd llawn.

Gofal Sesiynol

Yn Ardal Gymunedol 2 y mae'r nifer uchaf o leoedd gofal dydd sesiynol (Mehefin 2021).
Yn ardaloedd cymunedol 6 y mae'r nifer isaf o leoedd gofal dydd sesiynol.

Gofal y tu allan i'r ysgol

Yn Ardal Gymunedol 1 y mae'r nifer uchaf o leoedd gofal plant y tu allan i'r ysgol (Mehefin 2021).
Yn ardal gymunedol 4 y mae'r nifer isaf o leoedd gofal plant y tu allan i'r ysgol.

6.5 Mae'r ymchwil a wnaed i lywio Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 wedi darparu'r dystiolaeth ganlynol:


- Mae nifer y darparwyr a'r lleoedd gofal plant cofrestredig sydd ar gael yn y Sir wedi cynyddu ers 2017. Bu cynnydd hefyd yn nifer y plant 0-14 oed sy'n byw yn y sir ers ein hasesiad diwethaf.

- Mae'r Awdurdod Lleol yn gwybod y rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn **cynyddu** 2.4% hyd at 2028 a gallai hyn arwain at tua 220 yn fwy o blant 0-4 oed yn byw yn y Sir erbyn 2027 a 520 yn fwy o blant 5-14 oed yn byw yn y sir erbyn 2027.
- Yn Ardal Gymunedol 3 y mae'r nifer isaf o ddarparwyr a lleoedd gofal plant cofrestredig ac yn enwedig o ran gofal dydd llawn. Disgwylir nifer o ddatblygiadau tai newydd yn ardal Rhydaman hyd at 2026, lle bydd 562 o dai newydd yn cael eu hadeiladu. Mae hyn yn debygol o gynyddu'r galw am ofal plant yn Ardal Gymunedol 3.
- Mae gan Ardal Gymunedol 5 boblogaeth gymharol uchel o blant 0–4 oed, ond nifer gymharol isel o leoedd gofal dydd llawn. Gallai hyn achosi pwysau o ran digonolrwydd pan fydd y cynnig cyffredinol i blant 2 oed a'r gwaith o ehangu'r Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed yn symud yn eu blaenau. Mae'r ffaith bod 1,970 o dai newydd wedi'u cynllunio ar gyfer ardal Llanelli hyd at 2026 hefyd yn ffactor, gan y gallai'r rhain, unwaith eto, achosi pwysau ychwanegol o ran lleoedd gofal plant cofrestredig ffurfiol.
- Mae gan Ardal Gymunedol 6 boblogaeth gymharol uchel o blant 0–4 oed hefyd, ond mae ganddi tair ACEHI o fewn ei ffin lle nad oes lleoedd gofal plant cofrestredig wedi'u lleoli: Bigyn 4; Glanymôr 1 a Hengoed 2. I raddau, mae hyn yn cael ei wrthbwysu gan y ffaith bod gan yr Ardal Gymunedol y nifer uchaf o leoedd gofal dydd llawn – fodd bynnag, mae ganddi'r nifer isaf o leoedd gwarchodwyr plant cofrestredig ac un o'r nifer isaf o leoedd darparwyr gofal plant cofrestredig y tu allan i'r ysgol. Bydd angen rhoi sylw i'r ardal hon o ran digonolrwydd. Gellir nodi hefyd bod cyfradd genedigaethau gymharol uchel yn ardal Bigyn cyn dechrau pandemig COVID-19 yn 2020, a'i bod hefyd ymysg y 100 ardal uchaf o ran amddifadedd cymharol yng Nghymru. Mae ardal Glanymôr hefyd ymysg yr 20% uchaf o ran tlodi plant yng Nghymru.
- Mae nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n gweithredu yn y sir wedi gostwng ers Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017. Gallai hyn achosi pwysau o ran digonolrwydd yn sgil cynnydd amlwg yn y galw am oriau hyblyg, teuluoedd sy'n gweithio shifftiau ac oriau annodweddiadol a theuluoedd sy'n chwilio am ofal i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

7 CYNALIADWYEDD A COVID-19

7.1 Fel rhan o arolwg Cyngor Sir Caerfyrddin i ddarparwyr gofal plant yn hydref 2021, gwahoddwyd pob lleoliad i nodi a oedd eu busnes yn wynebu (neu'n dal i wynebu) problemau yn sgil COVID-19.


Ffigur 4 - Nifer y problemau sy'n cael eu hwynebu gan ddarparwyr lleoliadau/grwpiau yn sgil COVID-19



Mae Ffigur 4 yn dangos adborth cyfunol gan ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar a gofal plant y tu allan i'r ysgol ynghylch nifer y problemau neu heriau sy'n cael eu hwynebu o ganlyniad i COVID-19.

Y lleoliad lle nododd y nifer uchaf o ddarparwyr 'colli/lleihau refeniw' oedd ardal Llanelli. Y lleoliad lle nododd y nifer uchaf o ddarparwyr ei fod wedi cael 'effaith ar nifer y plant' oedd ardal Llanelli hefyd.


Ffigur 5 - Nifer y problemau sy'n cael eu hwynebu gan warchodwyr plant cofrestredig yn sgil COVID-19




Dengys Ffigur 5 fod gwarchodwyr plant cofrestredig yn nodi amlaf sut roeddent wedi 'colli/lleihau referniw' yn sgil pandemig COVID-19, a gan amlaf roedd yr ymatebwyr perthnasol hyn yn byw yn ardal Dinefwr. Y lleoliad lle nododd y nifer uchaf o warchodwyr plant ei fod wedi cael 'effaith ar nifer y plant' oedd ardal Llanelli hefyd.

7.2 Yn hydref 2021, gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i gadarnhau pa mor hir yr oeddent yn disgwyl parhau i ddarparu gofal plant:

Ffigur 6 - Ymatebion gan: (a) darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol am ba mor hir yr oeddent yn disgwyl parhau mewn busnes



Ffigur 7 - Ymatebion gan warchodwyr plant cofrestredig am ba mor hir yr oeddent yn disgwyl parhau mewn busnes



Gan amlaf roedd y chwe gwarchodwr plant a nododd 'llai na 2 flynedd' yn byw yn ardal Llanelli.

7.3 Gwahoddwyd pob (cynrychiolydd) darparwr gofal plant yn Sir Gaerfyrddin i nodi'r hyn y byddai eu lleoliad yn ei groesawu fwyaf fel cymorth, cyngor ac arweiniad parhaus gan Gyngor Sir Gaerfyrddin yn ystod y flwyddyn i ddod, sef 2022. Y tri math o adborth a nodwyd fwyaf oedd (yn nhrefn amllder):

- Sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o grantiau (cynaliadwyedd)
- Cyngor a chymorth ynghylch plant ADY a phontio i ysgolion
- Cymorth i recriwtio staff

8 CASGLIAD

Ers ein Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn ddiwethaf (2017-2022), mae nifer y lleoedd a'r darparwyr gofal plant wedi cynyddu ac wedi aros yn weddol sefydlog er gwaethaf heriau pandemig COVID-19.

Ymddengys bod dadansoddiad o ddata demograffig ac economaidd-gymdeithasol amrywiol, cyflwyno cynnig cyffredinol gofal plant rhan-amser ar gyfer pob plentyn 2 oed, ac ehangu'r Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed (ar gyfer rhieni sy'n cymryd absenoldeb mabwysiadu ac mewn addysg bellach a hyfforddiant) i gyd yn awgrymu y bydd mwy o alw am ofal plant rhan-amser cofrestredig ar gyfer plant 2, 3 a 4 oed yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd angen blaenoriaethu ardaloedd cymunedol 3, 5 a 6 gan ein bod yn rhagweld y bydd pwysau o ran digonolrwydd yn yr ardaloedd hyn.

Gwyddom o arolwg rhieni/gofalwyr Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021 fod rhieni'n rhagweld y bydd angen iddynt ddefnyddio mwy o ofal plant y tu allan i'r ysgol yn y blynyddoedd i ddod. Bydd angen blaenoriaethu ardal gymunedol 4 gan y gallai fod pwysau o ran digonolrwydd gofal plant y tu allan i'r ysgol yn yr ardal hon.

Yn ogystal, mae nifer o warchodwyr plant wedi dadgofrestru ers ein Hasesiad diwethaf a bydd angen i ni recriwtio, hyfforddi a chefnogi darpar warchodwyr plant i lenwi'r bylchau hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardal gymunedol 6 ac ardaloedd gwledig y Sir lle nad yw darpariaeth arall yn gynaliadwy o bosibl oherwydd y galw isel.

Mae fforddiadwyedd gofal plant i'r teuluoedd hynny na allant gael gofal plant a ariennir yn parhau i fod yn broblem sylweddol. Mae'n debygol y bydd hyn yn parhau i fod yn broblem wrth i gostau byw barhau i gynyddu ac yn anffodus bydd yn rhaid i ddarparwyr gofal plant drosglwyddo'r costau hyn i deuluoedd er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy. Rydym yn rhagweld y bydd angen i'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant gynyddu ffioedd ym mis Ebrill 2022 o ganlyniad i hyn.

Mae gofal plant yn rhwystr i gyflogadwyedd rhai rhieni ac nid yw'n ddigonol ar gyfer rhai o anghenion y rhieni hyn, yn enwedig rhieni sy'n gweithio (ar sail gynyddol amlwg) oriau shift. Dylai ehangu'r Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed i rhieni/gofalwyr mewn addysg bellach a hyfforddiant

helpu i leddfu hyn, ond ni wyddys i ba raddau ar hyn o bryd.

Nid yw oriau agor gofal plant yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhai rhieni sy'n gweithio, yn enwedig oriau agor rhai clybiau brecwast.

Mae nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu darpariaeth gofal plant yn cynyddu. Bydd angen i ddarparwyr gofal plant gael cymorth drwy hyfforddiant, adnoddau ac offer i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion dysgu ychwanegol y plant yn eu gofal.

Mae nifer y rhieni sy'n gofyn am fwy o hyblygrwydd o fewn eu darpariaeth gofal plant yn cynyddu - gan gynnwys yn dilyn addasu patrymau ac arferion gwaith (yn sgil COFID), ac yn 2022 nid oes digon o hyblygrwydd ar hyn o bryd mewn ymateb gan ddarparwyr gofal plant Sir Gaerfyrddin.

Mae'n bosibl y bydd materion yn ymwneud â recriwtio a chadw gweithlu gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn effeithio ar ddigonolrwydd gofal plant yn ardal Sir Gaerfyrddin yn y blynyddoedd i ddod. Dywedodd 23% o'r lleoliadau/grwpiau fod staff wedi gadael eu gweithlu oherwydd y pandemig, a oedd yn dangos thema sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru, sef bod cadw a recriwtio staff yn her gynyddol (ers gwanwyn 2022). Yn wir, yn y pen arall gellir nodi, yn yr un ymgynghoriad â darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar yn hydref 2021, fod y mwyafrif, sef 70%, wedi dweud nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau ar ddiwedd 2021 i recriwtio unrhyw brentisiaid. Yn ystod y pandemig roedd llawer o ddarparwyr gofal plant yn wynebu gorfod cau'n ysbeidiol a cholli incwm sylweddol. Rydym wedi gweld staff gofal plant cymwysedig yn gadael y sector oherwydd syrffed ar y pandemig, cyflog, telerau ac amodau gwael a theimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol. Gwyddom fod rhai staff wedi gadael i ymgymryd â swyddi mewn ysgolion a'r GIG lle mae cyflogau ac amodau'n fwy ffafriol, a lle mae oriau gwaith yn cydfynd yn well o lawer ag ymrwymadau teuluol. Mae pryderon iechyd meddwl a llesiant hefyd wedi'u nodi fel rhesymau pam mae staff wedi gadael y sector.

9 ARGYMHELLION

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud y 23 argymhelliad canlynol i fynd i'r afael â'r galw a ragwelir ar hyn o bryd a'r bylchau yn y cyflenwad ledled Sir Gaerfyrddin.

Y GALW AM OFAL PLANT

Argymhelliad 1

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i fonitro nifer y datblygiadau tai newydd sy'n cael eu cwblhau yn ystod 2022-23 a'r blynyddoedd i ddod, yn enwedig ardaloedd (datblygiad mawr) perthnasol megis Gorllewin Caerfyrddin, Porth Dwyrain Dafen a Datblygiad Heol Maes-Ar-Ddafen, gan fod hyn yn debygol o ysgogi mwy o alw am ofal plant yn yr ardaloedd hyn.

Argymhelliad 2

Mae angen i'r Awdurdod Lleol annog, cynghori a helpu darparwyr gofal plant presennol i addasu eu cynllun/model busnes i ateb y galw newidiol gan rieni/teuluoedd o ran pryd y mae'n well ganddynt gael mynediad at leoedd gofal plant, gan gynnwys ar sail hyblyg/rhan-amser.

Argymhelliad 3

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i fonitro ymholiadau gan rieni/gofalwyr yn ofalus drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd mewn perthynas ag anghenion gofal plant ac asesu'r galw am ofal plant y tu allan i 8am – 6pm, ar benwythnosau, yn ystod y gwyliau ac ar gyfer oriau annodweddiadol. Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i sicrhau bod y wybodaeth hon yn rhan o'r broses flynyddol o gynllunio'r Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant.

Y CYFLENWAD GOFAL PLANT

Argymhelliad 4

Mae angen i'r Awdurdod Lleol ddechrau cynllunio'n strategol y gwaith o fynd ati'n raddol i gyflwyno'r cynnig cyffredinol gofal plant rhan-amser a ariennir ar gyfer pob plentyn 2 oed fel rhan o ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg (haf 2022). Mae Ardaloedd Cymunedol 3, 5 a 6 wedi'u nodi fel rhai lle mae'n debygol na fydd digon o leoedd gofal plant ar gael i ateb y galw cynyddol a ragwelir.

Argymhelliad 5

Mae angen i'r Awdurdod Lleol fonitro nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael i blant 3 a 4 oed ledled y sir er mwyn gallu estynni'r Cynnig Gofal Plant yn llwyddiannus i rieni sy'n cymryd absenoldeb mabwysiadu a rhieni sydd mewn addysg bellach a hyfforddiant.

Argymhelliad 6

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i ddefnyddio'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant i gyfeirio darpar ddarparwyr gofal plant newydd pan fyddant yn cysylltu â'r Awdurdod Lleol/Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd/Arolygiaeth Gofal Cymru.

Argymhelliad 7

Mae angen i'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid barhau i gofio mai'r math o ofal plant y mae rhieni'n rhagweld y byddant yn dymuno manteisio arno fwyaf yn y blynyddoedd i ddod, sef 2022-24, yw gofal plant y tu allan i'r ysgol. Mae angen i'r Awdurdod Lleol hefyd gofio bod nifer gymharol uchel o ddarpariaethau o'r fath wedi'u lleoli mewn ysgolion. Mae'r lle sydd ar gael mewn ysgolion ar gyfer y ddarpariaeth hon wedi'i godi fel problem mewn rhai ysgolion a chan rai rhieni.

Argymhelliad 8

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i gynnig grantiau 'cychwyn' i ddarparwyr gofal plant newydd sydd am sefydlu busnes yn yr ardaloedd hynny yn y Sir lle bydd mwy o alw am ofal plant.

Argymhelliad 9

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i gefnogi, cynnal a gwella'r ddarpariaeth gofal plant cofrestredig presennol yn y sir (Gwarchodwyr Plant, Gofal Dydd Llawn, Gofal Sesiynol a Gofal y Tu Allan i'r Ysgol) a hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd ehangu posibl.

Argymhelliad 10

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i warchod plant fel cyfle o ran gyfa, er mwyn recriwtio gwarchodwyr plant ychwanegol mewn ardaloedd lle bu gostyngiad, ac mewn ardaloedd gwledig lle nad yw darpariaeth gofal plant cofrestredig arall yn gynaliadwy o bosibl. Mae Ardal Gymunedol 6 yn ardal flaenoriaeth.

Argymhelliad 11

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i ariannu hyfforddiant Cyflwyniad i Ofal yn y Cartref a pheccynnau Cychwyn o Ansawdd ar gyfer gwarchodwyr plant newydd.

ARGAELEDD/HYBLYGRWYDD

Argymhelliad 12

Mae angen i'r Awdurdod Lleol ystyried sut y gall annog darparwyr gofal plant i gynnig oriau agor a chau mwy hyblyg a fydd yn cyd-fynd â newidiadau mewn patrymau gwaith.

FFORDDIADWYEDD

Argymhelliad 13

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i arwain y gwaith o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a darparwyr o Ofal Plant Di-dreth, fel ffynhonnell cymorth ariannol. Yn naturiol, dylai hefyd baratoi i rannu gwybodaeth am y canlynol sydd i ddod: (a) estynni'r Cynnig Gofal Plant i blant tair a phedair oed ar gyfer rhieni sy'n cymryd absenoldeb mabwysiadu ac mewn addysg bellach a hyfforddiant a: (b) cynnig cyffredinol gofal plant a ariennir ar gyfer pob plentyn dwy oed yn y tair blynedd nesaf, o ystyried pa mor rhesymegol yw hi y bydd y ddwy fenter hyn o fudd i deuluoedd penodol (ac yn achos (a), teuluoedd sydd newydd fod yn gymwys).

Argymhelliad 14

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i weithio mewn partneriaeth â rhaglenni cyflogadwyedd lleol a gweithwyr proffesiynol, megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, er mwyn rhoi cyngor ar hyrwyddo mentrau a rhaglenni gofal plant a ariennir megis Gofal Plant Di-dreth.

CYNALIADWYEDD

Argymhelliad 15

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i fonitro effaith y pandemig ar bob darparwr gofal plant lleol yn ofalus a rhoi mecanweithiau ar waith yn gynnar i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth. Dylai'r Awdurdod Lleol barhau i ddefnyddio fframwaith cymorth sgorio Coch/Melyn/Gwyrdd (RAG) ar draws yr holl leoliadau gofal plant cofrestredig h.y. gofal dydd llawn, gofal y tu allan i'r ysgol a gofal sesiynol, i bennu lefel y cymorth sydd ei angen ar bob lleoliad unigol, er mwyn sicrhau bod lleoliadau'n cael y cyfle gorau posibl i barhau'n gynaliadwy, a bod unrhyw faterion a nodir yn cael eu codi'n gynnar.

Argymhelliad 16

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i gynnig grantiau cynaliadwyedd/caledi i ddarparwyr gofal plant cofrestredig sy'n ei chael yn anodd cynnal eu busnesau.

GWYBODAETH

Argymhelliad 17

Mae angen i'r Awdurdod Lleol gynnal rôl proffil uchel a hanfodol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd - yn enwedig oherwydd ei waith yn hyrwyddo cymorth a chynigion gofal plant a ariennir, ei rôl wrth gyfeirio rhieni/teuluoedd at ofal plant o safon a'i rôl hanfodol wrth gyfeirio rhieni at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylai hefyd barhau i ganolbwyntio ar sut y gall hyrwyddo ei rôl i gyflogwyr lleol - yn ogystal â'u gweithwyr.

DATBLYGU, RECRIWTIO A CHADW'R GWEITHLU A DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS

Argymhelliad 18

Mae angen i'r Awdurdod Lleol wneud mwy i arwain y gwaith o fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw'r gweithlu gofal plant. Bydd angen cydweithio â cholegau lleol, partneriaid CWLWM, Gyrfa Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac ati i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a helpu i adeiladu a chryfhau'r gweithlu.

Argymhelliad 19

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i sicrhau bod y gweithlu gofal plant lleol yn parhau i gael mynediad at gyrsiau hyfforddi gorfodol priodol â chymhorthdal i fodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru a gwella cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ymhellach.

Argymhelliad 20

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i hyrwyddo a darparu cyfleoedd i'r gweithlu gofal plant lleol ddatblygu sgiliau i weithio mewn lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a darparu cyfleoedd Cymraeg i blant mewn lleoliadau gofal plant cyfrwng Saesneg.

Argymhelliad 21

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i wella lefelau cymwysterau staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant lleol er mwyn codi safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ymhellach. Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i hyrwyddo cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac annog a monitro'r nifer sy'n manteisio ar leoedd.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Argymhelliad 22

Mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i fod yn ymwybodol bod nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol wedi cynyddu, lle mae darparwyr gofal plant wedi rhoi adborth am achosion pendant o oedi datblygiadol a chymryd cam yn ôl. Dylai parhau i hyrwyddo'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol fod yn flaenoriaeth barhaus. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol barhau i gefnogi Darparwyr Gofal Plant i fanteisio ar hyfforddiant, adnoddau ac offer priodol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol plant y maent yn darparu gofal ar eu cyfer.

DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

Argymhelliad 23

Mae angen i'r awdurdod lleol barhau i fod yn flaengar wrth feddwl am ofal plant cyfrwng Cymraeg a sicrhau y manteisir ar bob cyfle i ehangu'r ddarpariaeth sydd ar gael mewn partneriaeth â'i bartneriaid gofal plant a'i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth ddechrau cynllunio'r gwaith o fynd ati'n raddol i gyflwyno cynnig cyffredinol gofal plant rhan-amser a ariennir ar gyfer pob plentyn 2 oed, sy'n rhoi pwyslais cryf ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.